

# Gwin – Y gyfraith

Y rheoliadau sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig, canllawiau byr ar brif agweddau'r gyfraith a chanllawiau ar y deddfau eraill sy'n ymwneud â masnachu gwin.

## Sut mae deddfau gwin Ewrop a'r Deyrnas Unedig (DU) yn cael eu gweithredu

Mae Rheoliadau Gwin y Cyngor a'r Comisiwn Ewropeaidd yn gymwys ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac maent yn cynnwys:

- y farchnad win gyfan o gynaeafu grawnwin i werthu gwin i'r defnyddiwr terfynol
- system gefnogi'r Gymuned Ewropeaidd
- trefniadau ar gyfer mewnfario gwin i'r DU o Drydydd Gwledydd eraill

Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi Cyfarwyddbau a Hysbysiadau ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â gwin sy'n cynnwys rhestrau o'r:

- awdurdodau cyfrifol – cymwys – a ddynodwyd gan Aelod-wladwriaethau at ddibenion gorfodi a chysylltu
- labordai awdurdodedig mewn trydydd gwledydd nad ydynt yn yr UE sy'n gallu cyhoeddi tystysgrifau swyddogol VI 1 i gyd-fynd ag allforion gwin i'r UE

## Rheoliadau sy'n gymwys yn y DU

Caiff cyfraith yr UE ei chymhwyso'n ymarferol gan Offeryn Statudol y DU (OS). Mae cymhwysio yn ymarferol yn cynnwys:

- dehongli
- cyfrifoldebau gorfodi
- pwerau swyddogion gorfodi
- troseddau
- cosbau

Yr OS presennol ar gyfer y DU yw [Rheoliadau Gwin 2011 OS Rhif 2936 \(fel y'u diwygiwyd gan OS 2013 Rhif 3235\)](#).

Rydym ni'n gyfrifol am orfodi'r rheoliadau gwin yn y DU o ran:

- mewnfario
- potelu
- cynhyrchu yn y DU
- dosbarthu drwy gyfanwerthu

Mae [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig \(Defra\)](#), [Cyllid a Thollau EM \(HMRC\)](#) ac [awdurdodau lleol](#) hefyd yn asiantaethau gorfodi. Mae HMRC yn gyfrifol am yr holl orfodi yn y sector manwerthu.

## Rheoliadau yn y sector gwin

Mae [Rheoliad \(UE\) Rhif 1308/2013](#) yn amlinellu'r system ar gyfer rheoli pedwar ar hugain o gynhyrchion penodol y sector amaethyddol, gan gynnwys gwin. Mae'n cynnwys deddfwriaeth ar:

- ymyrryd yn y farchnad
- rheolau ynghylch marchnata a chynhyrchu
- enwau tarddiad gwarchoddedig a dynodiadau daearyddol gwarchoddedig.
- masnachu gyda thrydydd gwledydd
- rheolau cystadleuaeth

Mae'n rheoli'r broses o reoleiddio gwin gan ei fod yn:

- sefydlu'r gofyniad i rai aelod-wladwriaethau penodol gadw cofrestr o winllannoedd
- darparu ar gyfer dosbarthu amrywiadau grawnwin ac awdurdodiadau plannu gwinwydd
- amlinellu'r 'parthau tyfu gwin' ac yn gosod rhai cyfyngiadau ar arferion cynhyrchu gwin yn y parthau hynny
- pennu'r wybodaeth labelu orfodol
- pennu'r math o wybodaeth ddewisol y gellir ei defnyddio
- pennu'r angen am ddogfennau cysylltiedig
- rhestru'r diffiniadau ar gyfer gwahanol gategoriâu o gynhyrchion grawnwin yn Atodiad VII Rhan 2
- nodi'r gofynion labelu gorfodol ar gyfer gwinoedd llonydd a phefriog, gwinoedd lled-befriog a gwinoedd gwirod yn Erthygl 117
- rhoi gwybodaeth am gynhyrchion sector gwin a'r Codau Tollau perthnasol (codau CN) a gwmpesir gan y gyfundrefn yn Atodiad 1 Rhan XII

## Gofynion rheoleiddio penodol

Mae pob rheoliad isod yn ychwanegu gofynion manylach i'r mesurau a amlinellir yn 1308/2013.

[Cyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd ar gyfer Gwin](#)

[Cymdeithas Fasnach ar gyfer Gwin a Gwirod](#)

[Cymdeithas Gwinllannoedd y Deyrnas Unedig](#)

## Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 555/2008

Mae [Rheoliad \(CE\) Rhif 555/2008](#) yn darparu rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 479/2008 ar drefniant cyffredin y farchnad mewn gwin. Mae hyn yn berthnasol os:

- ydych chi'n dymuno cefnogi rhaglenni
- [ydych chi'n dymuno masnachu gyda thrydydd gwledydd](#)
- mae gennych chi botensial cynhyrchu

Mae Erthygl 40 o'r rheoliad hwn yn amlinellu'r gofyniad am ddogfen VI1 ar gyfer mewnfario gwin nad yw'n dod o'r UE a chyfrifoldebau awdurdodau rheoli yn yr Aelod-wladwriaethau. Mae dogfen VI1 yn dystysgrif tarddiad a dadansoddiad a gyhoeddir yn y Trydydd Gwlad tarddiad.

Mae Erthygl 42 y rheoliad yn eithrio rhai llwythi bach ar gyfer ffeiriau masnach ac ar gyfer defnydd preifat gan deithwyr ac unigolion preifat rhag gorfod cael tystysgrif VI1. Bydd angen

tystysgrif VI1 ar y rhan fwyaf o fewnforion gwin masnachol.

## Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 436/2009

Mae [Rheoliad \(CE\) Rhif 436/2009](#) yn darparu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 479/2008 ar gyfer:

- [y gofrestr o winllannoedd](#)
- datganiadau gorfodol
- casglu gwybodaeth i fonitro'r farchnad win
- dogfennau sy'n cyd-fynd â llwythi o gynhyrchion gwin
- cofrestrau'r sector gwin i'w cadw

Mae'r rheoliad hwn yn pennu'r canlynol:

- manylion y mae angen eu cynnwys ar y [Gofrestr o Winllannoedd](#)
- yr angen i gyflwyno datganiadau cynaeafu a chynhyrchu
- dogfennau a chofnodion cysylltiedig i'w defnyddio ar gyfer cludo grawnwin a gwinoedd
- cofnodion o brosesau cynhyrchu gwin i'w cadw

Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru gyda ni o fewn chwe mis i blannu os yw eich gwinllan:

- yn fwy na 0.1ha o ran maint – neu unrhyw faint llai os yw'n cael ei ddefnyddio'n fasnachol
- yn cynnwys planhigfeydd newydd

Mae'n ofynnol i dyfwyr gyflwyno datganiadau cynhaeaf blynyddol atom ni.

Rhaid i gynhyrchwyr gyflwyno datganiadau cynhyrchu blynyddol atom ni.

Mae'r rhain, a'r wybodaeth a gedwir ar y [Gofrestr o Winllannoedd](#) yn helpu i olrhain er mwyn datblygu cynlluniau gwin y DU.

## Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 606/2009

Mae [Rheoliad \(CE\) Rhif 606/2009](#) yn darparu rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 479/2008 ar gyfer y categorïau o gynhyrchion grawnwin ac arferion gwinyddiaeth.

Mae'r rheoliad hwn yn rhoi gwybodaeth benodol ar:

- arferion a phrosesau cynhyrchu gwin awdurdodedig y gellir eu defnyddio
- rhestrau o'r prosesau sydd wedi'u cymeradwyo – dangosir unrhyw gyfyngiadau perthnasol yn yr Atodiadau
- diffiniadau ar gyfer categorïau penodol o win – yn arbennig, gwin pefriog a gwin gwirod
- rheolaethau ar gyfer y lefelau uchaf o sylffwr deuocsid a lefelau asidedd anweddol mewn gwin
- rheolaethau ar gymysgu a coupage
- cyfyngiadau sy'n atal coupage gwinoedd trydydd gwledydd o fewn yr UE

Ar gyfer cynhyrchwyr yn y DU, mae dad-asideiddio a chyfoethogi gwin yn ddarostyngedig i derfynau a ganiateir ac mae'n rhaid i ni gael gwybod am y prosesau hyn.

Rhaid i'r cynhyrchydd gadw cofnodion cywir o'r gwindy sy'n manylu ar bob proses cynhyrchu gwin a chofnodion potelu dilynol. Rhaid cadw cofnodion gwindy a dogfennau cysylltiedig am o leiaf bum mlynedd.

## Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 607/2009

Mae [Rheoliad \(CE\) Rhif 607/2009](#) yn darparu rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 479/2008 ar gyfer:

- enwau tarddiad gwarchoddedig o ddynodiadau daearyddol gwarchoddedig
- termau traddodiadol
- labelu a chyflwyno rhai cynhyrchion sector gwin

Mae'r rheoliad hwn yn darparu rheolau labelu manwl a gofynion dilysu blynyddol ar gyfer categorïau penodol o winoedd.

## Gwybodaeth orfodol wrth labelu

Rhaid dangos gwybodaeth orfodol benodol mewn un man lle gellir gweld popeth ac mae'n rhaid i ddefnyddiwr allu ei ddarllen yn hawdd heb orfod troi'r cynhwysydd.

Dyma'r wybodaeth orfodol y mae'n rhaid i chi ei chynnwys:

- mynegiant o'r tarddiad – er enghraifft, gwlad tarddiad
- y mynegiant perthnasol ar gyfer gwinoedd gydag Enwau Tarddiad Gwarchoddedig neu Ddynodiadau Daearyddol Gwarchoddedig oni bai bod hwn yn cael ei ddisodli gan Ddehongliad Traddodiadol cymeradwy
- math o gategori gwin – er enghraifft gwin, gwin pefriog
- y cyfaint enwol – er enghraifft, 75cl
- y cryfder alcoholaidd – a ddangosir i sero neu bwynt pump o ganran, er enghraifft, 11.5% vol – ar wahân i winoedd o Awstralia a'r Swistir lle gellir defnyddio cynyddiadau o 0.1%
- manylion y potelwr ar gyfer gwin llonydd a manylion y cynhyrchwr neu'r gwerthwr ar gyfer gwin pefriog
- y math o gynnyrch ar gyfer gwinoedd pefriog

[Labelu gwin](#)

## Labelu alergenau

Rhaid i wybodaeth am alergenau ymddangos ar y cynhwysydd, ond fe all fod mewn maes gweld gwahanol.

Bydd angen i chi ddangos datganiad yn rhybuddio am alergenau os yw cynnwys y sylffwr deuocsid yn fwy na 10mg/litr ac os yw gweddillion llaeth neu wy yn fwy na 0.25mg/l.

Rhaid i'r datganiad hwn fod o leiaf 1.2mm o uchder – yn seiliedig ar uchder llythyren “x” fach yn y ffont a ddefnyddir.

[Labelu cynhwysion alergenauidd mewn gwin](#)

## Labelu gwin wedi'i fewnforio

Bydd angen i chi ddangos manylion y mewnforiwr ar gyfer gwin trydydd gwledydd. Dim ond un mewnforiwr y gellir ei ddangos er ei bod hi'n bosibl rhestru dosbarthwyr mewn Aelod-wladwriaethau eraill.

Bydd angen i chi hefyd gynnwys rhif y lot (*lot number*).

[Mewnforio gwin](#)

## Rhybuddion iechyd

Er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i ddangos unedau'r DU, rhybuddion iechyd y DU, caiff negeseuon sydd wedi'u cymeradwyo am yfed cyfrifol eu cynghori'n gryf.

Cymerwch gip ar y [canllawiau labelu](#) a gyhoeddwy gan Portman Group

Mae rhagor o wybodaeth am rybuddion iechyd ar gael drwy [Drinkaware](#)

## Gwybodaeth ddewisol

Gellir cynnwys rhai eitemau dewisol fel lliw a'r math o win.

Dim ond ar Enw Tarddiad Gwarchoddedig (PDO), Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) a gwinoedd Amrywiadol ardystiedig y gellir dangos y cynhaeaf ac amrywiaeth y grawnwin.

Gellir dangos rhai ymadroddion traddodiadol os yw'r gwin yn bodloni'r gofynion ar gyfer eu defnyddio. Gellir dangos rhagor o wybodaeth os:

- nad yw'n gwrthdaro â'r wybodaeth orfodol neu fanylion dewisol penodedig
- nad oes camddefnydd o dermau traddodiadol gwarchoddedig neu ymadroddion gwarchoddedig eraill
- nad oes perygl o ddryswch i'r defnyddiwr.

## Rheoliad (UE) Rhif 251/2014

Mae [Rheoliad \(UE\) Rhif 251/2014](#) yn cynnwys gwybodaeth am gynhyrchion gwin aromatig, gan gynnwys vermouthe, sangria. Mae'r rheoliad yn mynd i'r afael â'r:

- diffiniad
- disgrifiad
- cyflwyniad
- labelu
- diogelu dynodiadau daearyddol a diddymiadau Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1601/91

Mae mwyafrif y gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion gwin aromatig wedi'u cwmpasu gan y rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr. Mae timau safonau masnach yn gyfrifol am orfodi'r rheoliadau hyn.

Mae ein harolygwyr gwin yn camu i mewn os yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu labelu mewn ffordd sy'n drysu'r defnyddiwr i feddwl bod y cynhyrchion yn win arferol. Mae hyn hefyd yn wir am dermau gwin gwarchoddedig a chynhyrchion bwyd eraill nad ydynt yn win, megis diodydd seiliedig ar win gyda llai o alcohol.

## Cytundebau cysylltiedig

Mae'r rhain yn gytundebau ffurfiol rhwng yr UE a Thrydydd Gwledydd (nad ydynt yn yr UE) sy'n darparu mwy o hyblygrwydd i'r gwledydd hynny.

Byddant yn cynnwys cydnabod a diogelu:

- arferion cynhyrchu gwin y wlad
- termau traddodiadol
- dynodiadau daearyddol a restrir yn y cytundeb

Ar hyn o bryd mae gan yr UE gytundebau â Chile, Awstralia, De Affrica, Canada, y Swistir ac UDA i warchod telerau traddodiadol yr UE ac enwau tarddiad gwarchoddedig.

Os ydych chi'n dymuno mewnforio gwin o'r gwledydd hyn, mae angen ichi gysylltu â'r Arolygydd Rhanbarthol yn eich ardal chi i gael rhagor o gyngor.